




SuDS Corff Cymeradwyo
Cynllunio, Amgylchedd ac Economi
Cynllunio Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NB

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Atodlen 3 – Draenio Cynaliadwy

Cais Cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy i'w gymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) - Cymru



Ffurflen Gais ar gyfer derbyn Cynllunio Cyn Ymgeisio ar Systemau Draenio Cynaliadwy am ddatblygiadau newydd, gan gyfeirio at Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

Strwythur Cyn Cyflwyno Cais	
<u>Ffurflen Cyn Ymgeisio</u>	<i>(i'w chwblhau a'i dychwelyd)</i>
<u>Canllaw i Lenwi'r Ffurflen Gais Cyn Ymgeisio</u> – yn cynnwys gwybodaeth benodol a'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r cais.	<i>(Canllaw)</i>

(Defnyddiwch yr hyper ddolenni uchod i fynd yn syth at y Ffurflen a'r Canllaw)

Ffurflen Gais Cyn Ymgeisio

Mae'r ffurflen hon yn seiliedig ar ofyniadau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at bwrpas cyflwyno gwybodaeth i'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) yn unig, yn unol â'r ddeddfwriaeth y manylir arni yn y ffurflen hon ac eitemau perthnasol eraill o fewn is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol.

Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith na fydd gan y SAB a Llywodraeth Cymru fynediad at y data a fewnbynnir gennych i'r ffurflen unwaith y byddwch wedi ei lawrlwytho. Mae defnydd o'r ffurflen hon gennych wedyn yn ôl eich dewis eich hun, gan gynnwys dewis ei chwblhau a'i chyflwyno i'r SAB mewn cytundeb â'r adran ddatganiad.

Ar dderbyn y ffurflen hon ac unrhyw wybodaeth atodol, mae'n gyfrifoldeb ar yr SAB i roi gwybod i chi ynglŷn â'i rwymedigaethau mewn perthynas â phrosesu eich cais. Cyfeiriwch at wefan y Corff am wybodaeth bellach ar unrhyw ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a masnachol sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth a diogelu data ar gyfer y wybodaeth a ddarparwyd gennych.

Nodwch os gwelwch yn dda:

1. Mae'r ffurflen hon ar gyfer trafodaethau **Cyn Ymgeisio** gyda SAB YN UNIG;
2. Fe ystyrir y cais hwn yn seiliedig ar gydymffurfio â [Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\) Cymru](#) ac [Offerynnau Statudol](#);
3. Fe'ch cynghorir i gysylltu'n fuan, ac yn uniongyrchol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a phob sefydliad perthnasol arall a allai fod â diddordeb yn eich cynnig ar gyfer cynllun SuDS, gan gynnwys yr ymgylchreion statudol SAB a restrir isod:
 - a. Ymgymwrwr carthffosiaeth;
 - b. Cyfoeth Naturiol Cymru;
 - c. Awdurdod Priffyrdd;
 - d. Rhanbarthau Draenio Mewnol (CNC).
4. **I gyflwyno Cynllun SuDS Cyn Ymgeisio dilys i'r SAB, mae'n RHAID llenwi POB rhan o'r ffurflen hon;** a
5. Tra'n llenwi'r ffurflen hon, fe'ch anogir i ddarparu ymateb cychwynnol i'r cwestiynau pellach sydd yn y [Canllaw](#), a chyflwyno cymaint o wybodaeth dechnegol gychwynnol â phosibl am gynigion eich cynllun SuDS (fel y nodir yn y [Canllaw](#)); gan y bydd hyn yn cynorthwyo'r SAB gydag ystyriaethau a thrafodaethau Cyn Ymgeisio.

Byddwn yn prosesu'r wybodaeth a ddarperir gennych fel bod modd i ni ddelio â'ch cais. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn prosesu neu ryddhau'r wybodaeth er mwyn cynnig i chi ddogfennau neu wasanaethau yn ymwneud â materion amgylcheddol; yn ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill; yn darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un sy'n gofyn amdano neu er mwyn rhwystro unrhyw un rhag torcyfraith amgylcheddol; yn ymchwilio i achosion lle mae'n bosib fod deddfwriaeth amgylcheddol wedi ei thorri ac yn gweithredu yn ôl yr angen; ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (os yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu hynny).

Sicrhewch fod y wybodaeth a gyflwynir gennych yn fanwl gywir ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif. Os oes arnoch angen eglurhad pellach o unrhyw fath, cysylltwch â'r SAB yn uniongyrchol.

Os ydych yn argraffu'r ffurflen, llenwch y ffurflen mewn llythrennau bras ac inc du cyn ei chyflwyno i'r SAB.

Darllenwch y [Canllaw](#) a llenwch y ffurflen gais hon yn ofalus. Os byddwch chi'n llenwi'r ffurflen gais yn gywir y tro cyntaf, gall y SAB ei phrosesu'n gyflymach.

Cyn cyflwyno Cais Llawn, cynghorir ymgeiswyr i gyflwyno'r cais Cyn Ymgeisio hwn i drafod eu cynigion gyda'r SAB a sicrhau bod cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy derbyniol yn cael ei gyflwyno yn nes ymlaen, yn y cam Cais Llawn. Sylwch y gall ffioedd cyn ymgeisio fod yn berthnasol.

Bydd cyflwyniadau a wneir i gefnogi'r cais hwn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth bresennol ac arfer orau'r diwydiant gan gynnwys dogfennau y cyfeirir atynt yn [Canllaw ar wneud Ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy i'w gymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy \(SAB\)](#)

Dylai cynigion a gyflwynir gael eu llunio gan weithiwr medrus a chymwys, sydd â phrofiad mewn dylunio draeniau/ systemau draenio cynaliadwy/ rheoli perygl llifogydd.

Lle y bo'n briodol, dylid cynnwys cyfeirif cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) neu god adnabod unigryw.

Dylai ymgeiswyr lenwi'r ffurflen hon a'i chyflwyno, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol, i Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy Cyngor Sir y Fflint.

Os yw'n berthnasol, darperir manylion talu ffi'r Cyn Ymgeisio ar ôl cadarnhau y derbyniwyd cais cyn-ymgeisio dilys. Bydd y cadarnhad hwn yn cynnwys cyfeirnod unigryw (FCC/SAB/PRE/20XX/XXXX) sy'n rhaid ei ddyfynnu ar holl ohebiaeth yn y dyfodol. Ni fydd eich cais dilys yn cael ei brosesu nes bydd ffi'r cais wedi'i dderbyn a'i glirio'n llawn.

Pan fyddwch wedi llenwi eich ffurflen gais, cyflwynwch y ffurflen a'r dogfennau cysylltiedig i:

Yn electronig: SAB@flintshire.gov.uk

**Post: SuDS Corff Cymeradwyo
Cynllunio, Amgylchedd ac Economi
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NB**

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw beth yn y ffurflen gais hon, cysylltwch â ni.

Cynnwys

RHAID llenwi POB rhan o'r ffurflen hon yn llawn, oni nodir fel arall.

- 1. Manylion yr Ymgeisydd**
- 2. Manylion y Safle**
- 3. Cais**
- 4. Datganiad Effaith Amgylcheddol (EiA)**
- 5. Cydymffurfedd â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)**
- 6. Aseiad Cychwynnol o Berygl Llifogydd**
- 7. Rhestr Wirio Cais Cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy**
- 8. Datganiad**

1. Manylion yr Ymgeisydd**Enw a Chyfeiriad yr Ymgeisydd**

Teitl ac Enw	
Cwmni	
Ôl-ddodiad (uned/enw/rhif)	
Llinell 1 y Cyfeiriad	
Llinell 2 y Cyfeiriad	
Llinell 3 y Cyfeiriad	
Tref	
Sir	
Cod Post	
Rhif Ffôn	
Cyfeiriad e-bost	

Enw a chyfeiriad yr Asiant:

Teitl ac Enw	
Cwmni	
Ôl-ddodiad (uned/enw/rhif)	
Llinell 1 y Cyfeiriad	
Llinell 2 y Cyfeiriad	
Llinell 3 y Cyfeiriad	
Tref	
Sir	
Cod Post	
Rhif Ffôn	
Cyfeiriad e-bost	

Cyswllt dewisol	Ymgeisydd	Asiant
------------------------	-----------	--------

2. Manylion y Safle

Mae'n RHAID cyflwyno disgrifiad cyffredinol o'r safle gyda chynllun ategol yn manylu ar yr ardal adeiladu a graddau'r system ddraenio, y ceisiwyd cymeradwyaeth ar ei gyfer. Bydd yr holl cynllun / iau fod ar raddfa addas ac RHAID ddangos cyfeiriad y gogledd.

Enw'r datblygiad arfaethedig	
-------------------------------------	--

Cyfeirnod Grid (D/G)	Dwyreiniad	Gogleddiad
Ôl-ddodiad (uned/enw/rhif)		
Llinell 1 y Cyfeiriad		
Llinell 2 y Cyfeiriad		
Llinell 3 y Cyfeiriad		
Tref		
Sir		
Cod Post		

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig	
Cyfanswm arwynebedd safle'r cais (Ha)	
Ydi'r safle wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd h.y. Tir Llwyd, neu heb ei ddatblygu ar hyn o bryd h.y. Tir Glas?	
Defnydd presennol y tir	
Defnydd arfaethedig ar gyfer y tir	

3. Cais

A geisiwyd unrhyw gyngor blaenorol gan y Corff Cymeradwyo ynglŷn â'r cais hwn?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
Os "Do", darparwch y wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r cyngor a roddwyd i chi. Bydd hyn yn helpu'r SAB i ddelio â'r cais hwn yn fwy effeithlon.		
Enw'r Swyddog		

Cyfeirif		Dyddiad	DD	MM	BBBB
Manylion y Cyngor cyn Ymgeisio a Dderbyniwyd					

Ydi'r cais yma'n ymwneud ag unrhyw gais SAB sydd eisoes wedi'i wneud?	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
Os 'Ydi', nodwch gyfeirif y SAB		

Ydi'r cais yma'n rhan o ddatblygu'r safle fesul cam, neu'n un o sawl cais ar gyfer yr un safle?	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
Os "Ydi", nodwch fanylion byr		

4. Datganiad Effaith Amgylcheddol (EiA)

Ydi'r cais hwn yn ymwneud â datblygiad sydd yn destun cais Effaith Amgylcheddol o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (1)?	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
--	---------------------------------	-------------------------------------

5. Cydymffurfedd â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy

Mae'n RHAID i bob system draenio cynaliadwy gydymffurfio â [Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\) Cymru](#). Fe'ch cynghorir i gyfeirio at y testun manwl yn y Safonau sy'n ymwneud â'r wybodaeth angenrheidiol isod. Caiff y Safonau eu hailgynhyrchu yn y [Canllaw](#) i gynorthwyo i lenwi'r ffurflen gais.

Egwyddorion y Safon

Bydd yr Egwyddorion a restrir isod yn ategu dyluniad cynlluniau rheoli dŵr wyneb i fodloni'r Safonau Cenedlaethol Statudol. Lle bo modd, nodwch grynodedb byr ym mhob blwch isod sy'n ymwneud â phob un o Egwyddorion y Safonau a Safonau eitemedig 1 i 6, gan ddangos sut mae eich cynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn.

Cydymffurfio ag Egwyddorion y Safonau

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

- 1.
- 2.
3. Ac ati.

Safonau 1 i 6

Cydymffurfio â Safon S1 - Cyrchfan dŵr wyneb ffo

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirlunio, blaenoriaethau cyrchfan, dyluniad draenio manwl ac ati)
- 2.
3. Ac ati.

Cydymffurfio â Safon S2 - Rheolaeth hydrolog ar ddŵr wyneb ffo

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirlunio, Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, dylunio draeniau manwl, cyfrifiadau hydrolog, rheoli llif ac ati).
- 2.
3. Ac ati.

Cydymffurfio â Safon S3 – Ansawdd Dŵr

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ansawdd Dŵr, triniaeth, arolwg tir halogedig, atal llygredd ac ati)
- 2.
3. Ac ati.

Cydymffurfio â Safon S4 – Amwynder

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Cynllun Amwynder, Cynllun Tirlunio, amddiffyn, gwella, sawl swyddogaeth ac ati).
- 2.
3. Ac ati.

Cydymffurfio â Safon S5 – Bioamrywiaeth

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Cynllun Bioamrywiaeth, Cynllun Tirlunio, cynefin, gwarchod, gwella, sawl swyddogaeth ac ati)
- 2.
3. Ac ati.

Cydymffurfio â Safon S6 – Dylunio draenio ar gyfer Cadernid Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Chadw a Strwythurol

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirlunio, dylunio draenio manwl, Cynllun rheoli adeiladu, Cynllun Fesul Cam, Cynllun Rheoli SuDS ac ati)
- 2.
3. Ac ati.

6. Aseiad Cychwynol o Berygl Llifogydd

Ydi'r safle o fewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd? Cyfeiriwch at fapiau Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru. (Cyfoeth Naturiol Cymru / Datblygu a pherygl o lifogydd)	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
Os ydi'r datblygiad arfaethedig o fewn ardal mewn perygl o lifogydd, bydd angen i chi ystyried a ydyw'n briodol i gyflwyno aseiad o ganlyniadau llifogydd. (Cyfeiriwch at Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15)).		

Ydi'r safle wedi'i leoli mewn ardal sydd yn agored i lifogydd dŵr wyneb? Cyfeiriwch at Fapiau Llifogydd Dŵr Wyneb CNC .	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
Ydi'r safle wedi'i leoli mewn ardal sydd yn agored i lifogydd dŵr daear?	Ydi <input type="checkbox"/>	Nac ydi <input type="checkbox"/>
Oes yna gwrs dŵr (fel y diffinnir o dan Adran 72 Deddf Draenio Tir 1991) wedi'i leoli o fewn 20m o'r datblygiad arfaethedig?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>

7. Rhestr Wirio - Cais Cynllun Systemau Draenio Cynaliadwy

Cwblhewch y rhestr wirio ganlynol, gan wneud yn siŵr eich bod wedi darllen y [Canllawiau ar Gyflwyno Cais Systemau Draenio Cynaliadwy er Cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo](#), [Canllaw ar gwblhau'r Ffurflen Gais Cyn Ymgeisio](#), ac wedi darparu'r holl wybodaeth sydd ei angen er mwyn cefnogi eich cais:

Ffi Cyn Ymgeisio (pan fo angen)	Do <input type="checkbox"/>
Ffurflen gais Cyn Ymgeisio wedi ei chwblhau, ei harwyddo a'i dyddio.	Do <input type="checkbox"/>
Wedi ystyried cwestiynau pellach a gwybodaeth dechnegol yn y Canllaw , i'ch helpu i asesu eich cais Cyn Ymgeisio a chynorthwyo cynigion eich Cais Llawn yn nes ymlaen.	Do <input type="checkbox"/>

9. Datganiad

Yr wyf i/Rydym ni trwy hyn yn gwneud cais am Gyngor Cyn Ymgeisio am System Draenio Cynaliadwy fel y disgrifir yn y ffurflen hon a'r cynlluniau/darluniau a gwybodaeth atodol sydd yn cyd-fynd. Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod unrhyw ffeithiau a nodwyd yn wir a chywir a bod unrhyw farn a roddir yn farn gwirioneddol i'r unigolyn sydd yn eu rhoi.

Llenwyd y ffurflen hon gan ddefnyddio gwybodaeth gywir a gellir ei defnyddio fel crynodeb o gysyniad y strategaeth draenio dŵr wyneb ar y safle hon.

Llenwyd y ffurflen gan	
Llofnod	
Cymhwyster yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros gymeradwyo'r cais hwn	
Cwmni	
Ar ran (Manylion y Cleient)	
Dyddiad	

Ymwadiad

Gall gwybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon ac o fewn dogfennau ategol gael eu cyhoeddi ar gofrestr a gwefan Systemau Draenio Cynaliadwy y Corff Cymeradwyo, a bod ar gael i'r cyhoedd.

Canllaw ar gwblhau'r Ffurflen Gais Cyn Ymgeisio

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys:

- [Sylwadau cyffredinol](#)
- [Rhagor o Gwestiynau Cyn Ymgeisio](#)
- [Cwestiynau i'w hateb i ddangos cydymffurfedd â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\);](#)
- [Tabl A - Gwybodaeth a thystiolaeth;](#) a
- [Tabl B – Cynlluniau a darluniau.](#)

Sylwadau Cyffredinol

Dylid cyflwyno ceisiadau yn defnyddio'r ffurflen **Cyn Ymgeisio** a ddarparwyd gan y SAB. **MAE'N RHAID DEFNYDDIO'R FFURFLEN HON** am ei bod wedi cael ei llunio i sicrhau bod eich cais yn rhoi sylw dyledus i'r gofynion statudol.

Mae'r ffurflen hon ar gyfer cymeradwyaeth SAB YN UNIG, ac fe'ch cynghorir i gysylltu â nhw'n fuan, ac yn uniongyrchol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a phob sefydliad perthnasol arall a allai fod â diddordeb yn eich cais ar gyfer cynllun SuDS, gan gynnwys yr ymgynghoreion statudol SAB a restrir isod:

- Ymgymwrwr carthffosiaeth;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Awdurdod Priffyrdd;
- Rhanbarthau Draenio Mewnol (CNC).

Cynghorir chi i gychwyn ar drafodaethau **Cais Cyn Ymgeisio** gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) cyn gynted â phosibl a chynnal trafodaethau gyda'r SAB a'r LPA ar yr un pryd.

Ni ddylid cychwyn datblygu'r safle nes y rhoddir Cymeradwyaeth Gynllunio A Chymeradwyaeth Lawn y SAB. }

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod y swyddogion SAB a'r swyddogion cynllunio yn cael gwybod am gynnydd a phenderfyniadau o ran y cais cynllunio a'r cais SAB, gan eu bod yn geisiadau ar wahân, gyda gofynion, amserlenni a chyrff cymeradwyo gwahanol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gynnal **trafodaethau Cyn Ymgeisio** gyda'r SAB ar ddechrau'r broses o ddylunio'r SuDS. Gall **trafodaethau Cyn Ymgeisio** a **Phrif Gynllun** effeithiol sicrhau strategaeth rheoli dŵr wyneb a dyluniad cynllun SuDS cryf, cost effeithiol a hyfyw. Gall SAB eich helpu i benderfynu ar y datrysiad SuDS gorau ar gyfer eich safle

trwy roi syniad cynnar o'r hyn sydd yn cydymffurfio â'r **Safonau SuDS Cenedlaethol** neu beidio.

Darparwch cymaint o wybodaeth dechnegol â phosibl i'r SAB er mwyn iddynt roi ymateb ystyriol a rhesymegol yn y **cam Cyn Ymgeisio a'r cam Cais Llawn** h.y. po fwyaf o wybodaeth a ddarperir yn y cam **Cyn Ymgeisio**, gellir rhoi cyngor technegol mwy manwl.

Dylai'r asesiad draenio dŵr wyneb sy'n benodol i'r safle a gofynion SuDS gael eu hintegreiddio gyda'r **Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA)**, a dylai **Adroddiad Draenio Llifogydd a Dŵr Wyneb** gael ei ddarparu i'r LPA a'r SAB.

Cyfeiriwch at ddogfennau cenedlaethol a lleol allweddol cyn, ac yn ystod dylunio'r cysyniad, y dyluniad manwl, cymeradwyaethau SAB ac LPA, adeiladu, mabwysiadu, gweithredu a chynnal a chadw cynllun SuDS. Mae rhestr o'r dogfennau hyn, ynghyd â dolenni iddynt i'w gweld yn y [Canllaw ar gyfer Gwneud Cais System Draenio Cynaliadwy ar gyfer Cymeradwyaeth SAB](#).

Yn benodol ar gyfer y cais **Cyn Ymgeisio**:

- Fe allai **ffi Cyn Ymgeisio** fod yn daladwy i'r SAB;
- I sicrhau **Cais Dilys**, mae'n **RHAID** ateb pob cwestiwn ar y ffurflen, a dylid darparu cymaint o wybodaeth ategol gychwynnol â phosibl fel y nodir yn y Canllaw ar lenwi'r Ffurflen Cyn Ymgeisio;
- Dylai eich atebion i gwestiynau adlewyrchu anghenion penodol y Safonau Cenedlaethol Statudol;
- Unwaith y bydd eich ffurflen gais, ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol wedi cael ei gyflwyno'n gywir i'r SAB, bydd yn cael ei **wirio**;
- Os ystyrir ei fod yn **Gais Dilys**, bydd eich cais yn cael ei asesu'n dechnegol, a bydd swyddog SAB yn cysylltu â chi i gychwyn ar **drafodaethau Cyn Ymgeisio**;
- Nid oes yna raddfa amser statudol ar gyfer y broses **Cyn Ymgeisio**. Mae hyn yn golygu bod digon o amser yn cael ei neilltuo i drafod, datblygu a chytuno ar gynigion ar gyfer eich dyluniad cynllun System Draenio Cynaliadwy (o'r syniad cychwynnol i'r dyluniad terfynol), ynghyd â materion cysylltiedig eraill, gyda swyddogion SAB; y cyfan cyn i chi gyflwyno eich Cais Llawn;
- Er mwyn cael **trafodaethau cynhyrchiol Cyn Ymgeisio**, mae'n bwysig eich bod yn darparu cymaint o wybodaeth dechnegol gychwynnol cyn gynted â phosibl yn ystod y broses ddatblygu. Bydd hyn yn cynorthwyo trafodaethau "penodol am y datblygiad" i ddechrau am: cymeriad y safle a'r datblygiad, is-ddalgylchoedd dŵr wyneb a llwybrau llif, a'r cysyniad dylunio cyffredinol ac ati;
- Dylid cyfeirio'n fuan at y dogfennu statudol sydd wedi'u rhestru yn y canllaw hwn, a dylid ystyried hyfywedd safle i dderbyn cynllun System Draenio Cynaliadwy priodol yn ofalus, cyn cyflwyno cais **Cyn Ymgeisio**;

- Dylid cynnal trafodaethau technegol ac annhechnegol gyda SAB yn y **cam Cyn Ymgeisio**, gan mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd SAB yn cysylltu â chi wrth asesu Cais Llawn y Cynllun SuDS.
- Darperir rhagor o **gwestiynau Cyn Ymgeisio** yn y canllaw hwn i ddynodi lle bydd ymatebion cychwynnol yn cynorthwyo eich trafodaethau technegol gyda SAB; ac
- Mae angen y wybodaeth sydd yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y canllaw hwn ar gyfer y Cais Llawn. Fodd bynnag, darparwch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl yn y cam Cyn Ymgeisio i gynorthwyo eich trafodaethau technegol gyda'r SAB, cyn cyflwyno'r Cais Llawn yn nes ymlaen.

Darparwch un copi caled ac un copi electronig, a'i anfon i SAB@flintshire.gov.uk

Cyfeiriwch at y penodau, a chyfeiriadau ychwanegol a nodir yn [Ciria SuDS Manual C753](#)

Rhagor o gwestiynau Cyn Ymgeisio i'w ystyried yn fuan yn y broses

1. Hierarchaeth Arllwysiad Dŵr Wyneb Cychwynnol

Bydd trefniadau draenio dŵr wyneb yn dangos bod y draeniau dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol SuDs. Dylai cymaint o'r dŵr ffo â phosibl gael ei arllwys i bob elfen hierarchaeth cyn ystyried elfen hierarchaeth is. Mae angen ystyried dulliau casglu ac ymdreiddiad draeniau yn gyntaf. Gan gyfeirio at y lefelau hierarchaeth isod, nodwch eich trefniadau draenio cychwynnol er mwyn galluogi sgwrs gyda'r SAB. Argymhellir eich bod yn cael trafodaethau gyda pherchnogion tir ac asedau mor fuan â phosibl.

1. Ei gasglu i'w ddefnyddio

2. Ymdreiddiad

3. I gwrs dŵr

a) Ydyw'n gwrs dŵr cyffredin?
Ydyw'n brif afon?

4. I garthffos dŵr wyneb

a) Ydyw'n ddraen priffordd?
b) Ydyw'n garthffos gyhoeddus?
c) Ydyw'n garthffos preifat?
Arall

2. Asesiad Ymdreiddiad Cychwynnol

Pan gynigir draenio ymdreiddiad, dylid cynnal profion gyda methodoleg a gytunir gyda SAB e.e. [Infiltration Drainage - Manual of Good Practice \(CIRIA R156\)](#) a [BRE Soakaway Design \(DG 365 – 2016\)](#), a dylid ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddylunio, adeiladu, cynnal a chadw, profi ac asesu'r systemau ymdreiddiad. Lle y bo modd dylid darparu atebion cychwynnol i'r cwestiynau isod, ynghyd ag unrhyw arolygon, adroddiadau neu ddeunydd ategol arall.

Oes profion ymdreiddiad wedi cael eu cynnal?

Ydi Daeareg y datblygiad wedi cael ei ddadansoddi?

Beth yw'r dyfnder at y lefel uchaf a gofnodwyd o ddŵr daear (metrau)?

Oes profion twll turio wedi cael eu cynnal?

Oes Asesiad Tir Halogedig wedi cael ei gynnal?

Ydi'r draeniau ymdreiddiad a gynigir ar dir halogedig?

Beth ydi canlyniad y prawf ymdreiddiad ($X 10^{-2}$)?

3. Bras Ardal Anhydraidd

Darparwch fras ardaloedd anhydraidd presennol ac ardaloedd anhydraidd arfaethedig ar y safle. Bydd angen prawf o'r ardal anhydraidd presennol trwy arolwg topograffig wrth gyflwyno'r Cais Llawn.

4. Cyfrifiad cychwynnol o Begwn Cyfraddau Gollwng

Dylai cyfraddau dŵr ffo gael eu cyfrifo yn unol â methodoleg SAB a gytunwyd e.e. [Flood Estimation Handbook](#), [Revitalised Flood Estimation Handbook \(ReFEH\)](#) neu [IoH Report 124](#). Lle bo modd, dylid darparu pegwn cyfraddau gollwng presennol ac arfaethedig mewn litrau/eiliad/hectar ar gyfer y tebygolrwydd digwyddiadau isod, ynghyd ag unrhyw gyfrifiadau, adroddiadau a deunydd ategol eraill.

Cymedr Pegwn Cyfradd Dŵr Ffo Blynnyddol neu Tebygolrwydd Gormodiant Blynnyddol (AEP)

1 mewn 1 neu 0.01%

1 mewn 30 neu 3.33%

1 mewn 100 neu % 1%

5. Cyfrifiad Cychwynnol o Storio Hir Dymor

Mae angen Stofa Hir Dymor i ddelio â'r cyfaint ychwanegol o ddŵr sy'n cael ei greu yn sgil greu arwynebau anhydraid. Lle bo modd, dylai **cyfaint storio hir dymor (m³)** presennol ac arfaethedig gael eu darparu ar gyfer **digwyddiad glawiad 1 mewn 100 /1% (6 awr)**, ynghyd â'r **cyfaint storio hir dymor a fynegwyd fel dyfnder ar draws ardal gyfan y safle (mm)**. Dylai cyfrifiadau cychwynnol, adroddiadau a deunydd ategol arall gael eu darparu.

6. Cyfrifiad cychwynnol o Stofa Arafu

Darperir stofa arafu er mwyn i gyfradd y dŵr ffo o'r safle mewn i'r cwrs dŵr gael ei gyfyngu i gyfradd derbynol i amddiffyn rhag erydiad a llifogydd i lawr yr afon. Os nad yw'r cyfaint ychwanegol sy'n cael ei greu gan y datblygiad yn cael ei drin, bydd pegwn llif ar gyfer digwyddiad glawiad 1 mewn 100/1% yn gyfyngedig i'r Cymedr Pegwn Cyfraddau Dŵr Ffo. Lle bo modd, dylai **cyfaint stofa arafu (m³)**, a **fynegwyd fel dyfnder ar draws ardal y safle gyfan (mm)** gael ei ddarparu, ynghyd ag unrhyw gyfrifiadau adroddiadau a deunydd ategol arall.

7. Ansawdd Dŵr

Dylai dŵr ffo wyneb gael ei drin trwy ddilyniant rheoli Systemau Draenio Cynaliadwy i atal effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr a/neu amddiffyn systemau draenio i lawr yr afon, gan gynnwys carthffosydd. Dylai gwybodaeth gychwynnol am ddulliau trin ansawdd dŵr trwy **drefn reoli SuDS** gael ei ddarparu lle y bo'n bosibl, a chael ei gefnogi gan unrhyw gyfrifiadau, adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

8. Bioamrywiaeth

Dylid gwneud y mwyaf o fanteision posibl i fioamrywiaeth fel rhan o'r datblygiad. Dylai dyluniad y SuDS sicrhau lle y bo'n bosibl, fod coridorau gwyrdd a glas ecolegol gyfoethog yn cael eu darparu trwy gysylltu cynefinoedd naturiol ac ecosystemau trwy gydol y safle. Dylid darparu gwybodaeth gychwynnol am gynnwys **coridorau gwyrdd a glas yn nyluniad yr SuDS i wella bioamrywiaeth** lle bo'n bosibl, a dylid ei gefnogi gydag unrhyw adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

9. Amwynder

Lle bo modd, dylai'r System Draenio Cynaliadwy wella darpariaeth gofod cyhoeddus o safon uchel a deniadol gan helpu i ddarparu manteision iechyd a lles. Dylid darparu gwybodaeth gychwynnol am **sut i wella amwynder, gan gynnwys gofod gyhoeddus yng nghysyniad SuDS**, a dylid ei gefnogi gydag unrhyw adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

10. Bond Diffyg Perfformiad, Mabwysiadu, Gweithredu a Chynnal a Chadw

Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth yn ystod y cam dylunio SuDS i amcan gost gwaith adeiladu'r SuDS, trefniadau mabwysiadu'r SuDS a chyfrifoldebau cynnal a chadw SuDS, ynghyd â gweithgareddau ac amllder dros oes y datblygiad. Dylid darparu unrhyw ystyriaethau, cyfrifiadau a gwybodaeth arall ynglŷn â'r testunau hyn lle y bo'n bosibl.

Cwestiynau manwl i'w hateb i ddangos cydymffurfedd â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy

Lle bo modd ar gyfer **pob Safon**, dylai eitemau perthnasol a gwybodaeth atodol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a darluniau ac ati), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, gael eu rhestru isod a dylid cyflwyno'r holl ddeunydd perthnasol.

Egwyddorion y Safon

Mae'r Egwyddorion a restrwyd isod yn ategu dyluniad cynlluniau rheoli dŵr wyneb i fodloni [Safonau Statudol ar Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\) Cymru](#). Lle y bo'n bosibl, nodwch grynodedd byr sy'n ymwneud â phob Egwyddor, gan ddangos sut mae eich cynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn.

Cydymffurfio ag Egwyddorion y Safonau

Mae gofynion cynllun y System Draenio Cynaliadwy i'w gweld isod:

1. Sut ydych chi'n bwriadu rheoli dŵr ar yr wyneb neu yn agos ato ac mor agos at darddiad y dŵr ffo ag sydd modd?
(gweler **Safon S1** a **Safon S2**)
2. Sut ydych chi'n bwriadu trin glawiad fel adnodd naturiol gwerthfawr?
(gweler **Safon S1** a **Safon S2**)
3. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod llygredd yn cael ei reoli yn y tarddiad, yn hytrach na dibynnu ar y system ddraenio i'w drin neu ei ailgyfeirio?
(gweler **Safon S3**)
4. Sut ydych chi'n bwriadu rheoli glawiad i helpu i amddiffyn pobl rhag mwy o berygl o lifogydd, a'r amgylchedd rhag difrod morffolegol a difrod ecolegol cysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau a phatrymau llif, a symudiad gwaddodion a achosir gan y datblygiad?
5. Sut ydych chi'n bwriadu ystyried pwysau tebygol yn y dyfodol ar berygl llifogydd, yr amgylchedd ac adnoddau dŵr megis newid hinsawdd a lledaeniad trefi?
6. Sut ydych chi'n bwriadu defnyddio Dilyniant Rheoli SuDS, gan ddefnyddio cydrannau draenio mewn cyfres ar draws safle i gael system gadarn o reoli dŵr wyneb (yn hytrach na defnyddio un nodwedd "terfyn pibell" megis pwll i wasanaethu'r datblygiad cyfan)?

(gweler Safon S1 , Safon S2 a Safon S3)
7. Sut ydych chi'n bwriadu gwneud y mwyaf o gyflwyno manteision o ran amwynder a bioamrywiaeth? (gweler Safon S4 a Safon S5)
8. Sut ydych chi'n bwriadu gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael trwy ddefnydd amlswyddogaethol o ofodau ac ardaloedd cyhoeddus?
9. Sut ydych chi'n cynnig bod y cynllun System Draenio Cynaliadwy yn perfformio'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithiol dros einioes dylunio'r datblygiad gan ystyried yr angen am lefelau cynnal a chadw rhesymol? (gweler Safon S6)
10. Sut ydych chi'n bwriadu osgoi'r angen am bwmpio lle bo modd?
11. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod y cynllun yn fforddiadwy, gan ystyried costau adeiladu a chynnal a chadw fel ei gilydd a'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol a ddaw o'r system?
12. Gyda'ch cais, dylech gynnwys cynigion ar gyfer cynllun gofal a chadw a nodi ffynhonnell ariannu'r cynllun am ei oes.

Safon S1 - Cyrchfan dŵr wyneb ffo

Mae gofynion Safon S2 a restrir isod yn mynd i'r afael â defnydd dŵr wyneb gan y datblygiad ac i le y dylai gael ei arllwys. Y nod yw gofalu bod dŵr ffo yn cael ei drin fel adnodd a'i reoli mewn modd sy'n lleihau effeithiau negyddol y datblygiad ar berygl lifogydd, morffoleg ac ansawdd dŵr y dyfroedd derbyn a'r ecoleg gysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio system o gasglu dŵr glaw i reoli dŵr ffo ac i gyflwyno ffynhonnell o ddŵr heb fod yn ddŵr yfed i'r safle lle bo'n hynny'n ymarferol. Lle nad ydyw, dylid rhoi blaenoriaeth i ymdreiddio? Rhaid cyfyngu arllwysadau i systemau carthffosiaeth lle bo hynny'n bosib.

Dylid arllwys cymaint o ddŵr ffo ag sydd modd (yn amodol ar gyfyngiadau technegol neu gost) i bob cyrchfan cyn ystyried cyrchfan (lefel) â blaenoriaeth is.

Yn dibynnu ar nodweddion y safle, gallai draenio o wahanol rannau o'r safle fod â chyrchfannau draenio gwahanol.

Yn dibynnu ar ansawdd y dŵr ffo a'r potensial i gyrchfan benodol allu rheoli'r dŵr ffo hwnnw, gallai digwyddiadau bychain arllwys i lefel uwch tra gall fod angen i ddigwyddiadau mwy ddefnyddio cyrchfannau â blaenoriaeth is.

Cydymffurfio â Safon S1 - Cyrchfan dŵr wyneb ffo

Lefel Blaenoriaeth 1 yw'r dewis cyntaf (blaenoriaeth uchaf) a dylid defnyddio 4 a 5 yn unig dan amgylchiadau eithriadol.

Mae'n rhaid dangos cyrchfannau dŵr ffo'r cynllun draenio arfaethedig, a'r rhesymau dros gynnig y rhain fel y dangosir isod. s na fydd modd cyflawni cyrchfannau dŵr ffo Lefel Blaenoriaeth 1 neu Lefel Blaenoriaeth 2, dylid darparu'r rhesymau dros hyn hefyd.

Lefel Blaenoriaeth 1: Casglu dŵr wyneb ffo i'w ddefnyddio.

Lefel Blaenoriaeth 2: Dŵr wyneb ffo yn cael ei ymdreiddio i'r ddaear.

Nodyn: Os nad yw dŵr ffo yn cael ei ymdreiddio i'r ddaear, cynigir lefel blaenoriaeth is o gyrchfan dŵr wyneb ffo, "**MAE'N RHAID**" dangos "Meinir Prawf Eithrio" a rhaid darparu tystiolaeth.

Lefel Blaenoriaeth 3: Dŵr wyneb ffo yn cael ei arllwys i gorff dŵr wyneb.

Lefel Blaenoriaeth 4: Dŵr wyneb ffo yn cael ei arllwys i garthffos dŵr wyneb, draen briffordd, neu system ddraenio arall.

Lefel Blaenoriaeth 5: Dŵr wyneb ffo yn cael ei arllwys i garthffos gyfun.

Nodyn: Rhagdybiaeth gref yn erbyn arllwys i garthffos gyfun.

Safon S2 - Rheolaeth hydrolog ar ddŵr wyneb ffo

Nod Safon S2 a restrir isod ydi rheoli dŵr wyneb ffo o safle, ac arni i amddiffyn pobl ar y safle rhag llifogydd o'r system ddraenio am ddigwyddiadau hyd at gyfnod dychwelyd addas. Yn ogystal, i liniaru unrhyw berygl mwy o lifogydd i bobl ac eiddo i lawr yr afon o'r safle o ganlyniad i'r datblygiad, ac i warchod y corff derbyn dŵr rhag difrod morffolegol.

Cydymffurfio â Safon S2 - Rheolaeth hydrolog ar ddŵr wyneb ffo

Dylai'r cynllun System Draenio Cynaliadwy gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai dŵr wyneb ffo gael ei reoli i atal, cyhyd ag sydd modd, unrhyw arllwys o'r safle ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau glawiad llai na 5mm.

2. Dylai'r gyfradd dŵr wyneb am ddigwyddiad cyfnod dychwelyd unwaith bob blwyddyn (neu'r cyfatebol y cytunir arno) gael ei rheoli i helpu i liniaru effeithiau dŵr ffo o'r datblygiad ar forffoleg ac ecoleg cysylltiedig y cyrff derbyn dŵr wyneb.
3. Dylai'r gyfradd dŵr wyneb am ddigwyddiad cyfnod dychwelyd unwaith bob blwyddyn (neu'r cyfatebol y cytunir arno) gael ei rheoli i helpu i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad ar berygl llifogydd yn y corff derbyn dŵr wyneb.
4. Dylai'r gyfradd dŵr wyneb (cyfradd a chyfaint) am ddigwyddiadau cyfnod dychwelyd 1% (unwaith bob 100 mlynedd) (neu'r cyfatebol y cytunir arno) gael ei reoli i helpu i amddiffyn pobl ac eiddo ar y safle a gerllaw rhag llifogydd o'r system ddraenio.
5. Dylid ystyried y risgiau (ar y safle ac oddi arno) sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb ffo ar gyfer digwyddiadau mwy na chyfnod dychwelyd 1% (unwaith bob 100 mlynedd). Lle bo'r canlyniadau yn eithafol o ran tarfu cymdeithasol, difrod neu berygl i fywyd, dylid datblygu cynigion lliniaru i leihau'r effeithiau hyn.
6. Dylai cynigion dylunio draeaniad gael eu harchwilio i weld pa mor debygol yw unrhyw fethiant posib (e.e. methiant strwythurol neu rwystr) a chanlyniadau hynny, a rheoli'r peryglon llifogydd cysylltiedig lle bo bodd.

Safon S3 – Ansawdd Dŵr

Mae Safon S3 a ddangosir isod yn mynd i'r afael â gofynion dylunio draenio i leihau'r perygl posib o lygredd sy'n deillio o'r dŵr wyneb ffo i'r corff dŵr derbyn.

Cydymffurfio â Safon S3 – Ansawdd Dŵr

Dylai'r cynllun System Draenio Cynaliadwy gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylid trin dŵr wyneb ffo i atal effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr derbyn a/neu systemau draenio i lawr yr afon, gan gynnwys carthffosydd.

Safon S4 - Amwynder

Mae Safon S4 a ddangosir isod yn mynd i'r afael â dyluniad cydrannau SuDS er mwyn sicrhau eu bod, lle bo modd, yn cyfoethogi darparu gofod cyhoeddus deniadol o safon uchel a all helpu i roi manteision iechyd a lles, eu bod yn gwneud cymunedau lleol yn llefydd gwell i fyw ynddynt, a'u bod yn cyfrannu at wytnwch datblygiadau newydd beth bynnag fo'r hinsawdd.

Cydymffurfio â Safon S4 – Amwynder

Dylai'r cynllun System Draenio Cynaliadwy gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai dyluniad y system reoli dŵr wyneb wneud y mwyaf o fanteision amwynder.

Safon S5 - Bioamrywiaeth

Mae Safon S5 a ddangosir isod yn mynd i'r afael â dylunio SuDS i sicrhau lle bo modd, eu bod yn creu coridorau gwyrdd a glas ecolegol gyfoethog mewn datblygiadau ac yn cyfoethogi gwerth bioamrywiaeth trwy gysylltu rhwydweithiau o gynefinoedd ac ecosystemau ynghyd. Dylid ystyried bioamrywiaeth yn gynnar yng nghyfnod dylunio datblygiad er mwyn cael y manteision posibl mwyaf.

Cydymffurfio â Safon S5 – Bioamrywiaeth

Dylai'r cynllun System Draenio Cynaliadwy gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai dyluniad y system rheoli dŵr wyneb wneud y mwyaf o fanteision bioamrywiaeth.

Cydymffurfio â Safon S6 – Dylunio draenio ar gyfer Cadernid Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Chadw a Strwythurol

Mae Safon S6 a ddangosir isod yn ymwneud â dylunio systemau draenio dŵr wyneb cadarn fel y gellir eu hadeiladu, eu cynnal a'u gweithredu yn ddiogel, gan gadw mewn cof yr angen i leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Cydymffurfio â Safon S6 – Dylunio draenio ar gyfer Cadernid Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Chadw a Strwythurol

Dylai'r cynllun System Draenio Cynaliadwy gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai holl elfennau'r system ddraenio dŵr wyneb gael eu dylunio fel y gellir eu hadeiladu'n rhwydd, yn ddiogel, yn gost-effeithiol, mewn dull amserol, a chyda'r nod o leihau'r defnydd o adnoddau prin a charbon corfforedig (ynni).
2. Dylai holl elfennau'r system ddraenio dŵr wyneb gael eu dylunio i sicrhau bod modd cynnal a chadw a gweithredu (gan y corff cyfrifol perthnasol) yn hawdd, yn ddiogel, yn gost-effeithiol, mewn dull amserol, a chyda'r nod o leihau'r defnydd o adnoddau prin a charbon corfforedig (ynni).

3. Dylid dylunio'r system ddraenio dŵr wyneb i sicrhau cadernid strwythurol pob elfen dan amodau llwytho a ragwelir dros einioes dylunio safle'r datblygiad gan ystyried y gofyniad am lefelau rhesymol o gynnal a chadw.

Nodyn:

Gall gwybodaeth a ddarperir gael ei gyhoeddi ar gofrestr a gwefan Systemau Draenio Cynaliadwy y Corff Cymeradwyo, a bod ar gael i'r cyhoedd.

TABL A: Gwybodaeth a thystiolaeth i gefnogi'r**Cais Llawn**

Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) – (Gweler [Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd \(TAN15\)](#))

RHESWM: I ddangos y perygl llifogydd presennol ac yn y dyfodol i mewn ac allan o'r safle, a sut bydd y rhain yn cael eu rheoli i sicrhau bod pobl ac eiddo yn aros yn ddiogel dros oes y datblygiad. Bydd yr asesiad yn cynnwys:

- Gofynion TAN15; a
- Cyfeiriadau aml a dolenni i amodau cynllunio perthnasol, materion cynllunio a gadwyd yn ôl, ac i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.
-

Adroddiad Geodechnegol Ffeithiol a Deongladwy Manwl – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Penodau 13 a 25)

RHESWM: I ddangos rhinweddau pridd, creigiau a nodweddion sydd ar y safle ac oddi ar y safle'n bresennol, a dangos bod y dull arfaethedig o ddraenio dŵr wyneb yn briodol ar gyfer daeareg y safle; a bydd yn parhau i gynnal ei feini prawf dros oes y datblygiad. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Topograffi, daeareg a hanes y safle;
- Cyfyngiadau sylweddol (yn cynnwys creigiau toddadwy, tirlithriadau, cloddio bas, dŵr daear bas, tir gwneud, tir halogedig);
- Potensial draenio (yn cynnwys dyfnder at y lefel trwythiad, athreiddedd gwaddodion ar yr wyneb, trwch gwaddodion ar yr wyneb, athreiddedd creigwely, presenoldeb gorlifdiroedd);
- Sefydlogrwydd y tir (yn cynnwys creigiau toddadwy, tirlithriadau, cloddio bas, tywod rhedegog, clai chwyddo, tir cywasgadwy, cwmp tywr);
- Mapiau GeoSure Arolwg Daearegol Prydain (yn cynnwys gwaddodion artiffisial, gwaddodion ar wyneb, creigwely);
- Twll turio a lleoliadau twll treialu, monitro ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig;
- Asesiad ymdreiddiad manwl (yn cynnwys tystiolaeth o fathau o dir, cyfnod ymdreiddiad pridd a chyfrifiadau Chanran Dŵr Ffo Safonol);
- Lle y cynigir palmant athraidd mewn mathau penodol o bridd, mae angen CBR wedi'u socian;
- Gwaith labordy;
- Lle bo modd, tystiolaeth fanwl o lefelau trwythiad dŵr daear dros y 12 mis diwethaf neu dystiolaeth arall wedi'i dilysu; a
- Lefelau a lleoliad dŵr daear, a'r effeithiau ar:
 - Parthau Diogelu Dŵr Wyneb
 - Parthau Diogelu Dŵr Daear
 - Parthau Gwarchod Dŵr, a/neu
 - Parthau Perygl Nitradau Dŵr Daear.

Cynigion Draenio SuDS Manwl ar gyfer y Safle Gyfan – Gweler hefyd pob Pennod [Ciria SuDS Manual C753](#))

RHESWM: I gadarnhau bod y datrysiad draeniad arfaethedig yn briodol ar gyfer y lleoliad, math, graddfa a natur y safle a'r datblygiad arfaethedig; ac i ddangos y bydd y perygl o lifogydd yn cael ei leihau, i sicrhau bod pobl ac eiddo yn parhau'n ddiogel dros oes y datblygiad. Bydd y cynigion yn cynnwys:

- Strategaeth Ddraenio;
- Prif Gynllun;
- Yn cyfeirio at, ac yn cyd-fynd â Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd;
- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Cymeradwy, yn cynnwys:
 - hydroleg bresennol,
 - cyfrifiadau cyfradd dŵr ffo safleoedd tir glas a thir llwyd,
 - parhad digwyddiad glawiad,
 - canlyniadau dynwared i ddylunio ar gyfer storm RP, 1 mewn 1 RP, 1 mewn 2 RP, 1 mewn 30 RP a 1:100 RP
 - lwfans % priodol ar gyfer newid hinsawdd a lledaeniad trefi,
 - digwyddiadau llifogydd hanesyddol a lefelau dŵr daear,
 - risgiau (ar y safle ac oddi arno) sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb ffo ar gyfer digwyddiadau mwy na chyfnod dychwelyd 1% (unwaith bob 100 mlynedd),
 - disgrifiadau o asedau a nodweddion draenio presennol,
 - peryglon llifogydd presennol a'r dyfodol yn cynnwys:
 - ar yr wyneb,
 - dŵr daear,
 - tarddiadau eraill,
 - llwybrau llif gormodiant,
 - arllwysiadau,
- Ardaloedd anhydraidd a hydraidd presennol ac arfaethedig (mae angen gwella dŵr ffo o leiaf 30% neu gyfwerth i dir glas ar ardaloedd tir llwyd presennol);
- Modelau (fel y bo'n briodol) a chyfrifiadau hydrologig manwl;
- Dyluniad SuDS manwl yn cynnwys:
 - Ailgyfeirio yn cynnwys mecanweithiau a chydymffurfio â thargedau ailgyfeirio haf a gaeaf (e.e. haf 80% a gaeaf 50%),
 - triniaeth,
 - cludo llif,
 - rheoli pegwn a chyfaint llif (1:100b – digwyddiad glawiad 6 awr ar gyfer rheoli pegwn cyfaint),
 - storfa wyneb (hir dymor ac arafu),
 - storfa dan ddaear,
 - defnyddio llystyfiant a choed,
 - llwybrau a chydannau gormodiant (ar gyfer digwyddiad glawiad 1:100b neu fwy)
 - dangos y gellir darparu'r storfeydd a llif cludo ar y safle,
 - (h.y. 1-2 l/s/ha neu 5 l/s/ha lle mae perygl o rwystr neu nid oes dewis hyfyw arall),
 - risgiau a goblygiadau os bydd y dyluniad yn methu,
- Storio dŵr wyneb; cyfrifiadau yn cynnwys amser i arllwyso o lawn i hanner llawn;
- Cyfrifiadau ymdreiddiad yn cynnwys:
 - ffactor diogelwch penodol,
 - cyfradd ymdreiddiad penodol yn 1×10^{-5} m/s neu uwch,

- Gollyngfeydd ac arllwysiadau (fel rheol ystyrir 2/l/s/ha yn gyfradd priodol er mwyn peidio cynyddu'r perygl o lifogydd i lawr yr afon);
- Manylion yr holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn y dyluniad;
- Gall cydrannau gael eu hadeiladu, gweithredu a chynnal a chadw yn hawdd, yn ddiogel ac yn gost-effeithiol;
- Cydrannau yn cadw cadernid strwythurol dros oes y datblygiad;
- Dylid dangos fod y cydrannau yn addas i wrthsefyll pob llwythiad yn y dyluniad gyda'r ffactorau diogelwch a nodwyd;
- Tystiolaeth i alluogi'r SAB i gyfrifo gwerth diffyg perfformiad yn cynnwys cyfraddau uned am bob cydran SuDS;
- Mesurau lliniaru perygl o lifogydd sy'n ymwneud â draenio, gan nodi eu lleoliad, math a nodweddion (h.y. ffyrdd ac ardaloedd mynediad sydd wedi'i hamddiffyn i lawiad 1:30b, tu mewn eiddo a seilwaith critigol wedi'u hamddiffyn i lawiad 1:100b neu fwy, gofod rhydd priodol);
- Sawl defnydd o fanteision SuDS yn cynnwys ardaloedd dan ddŵr dros dro; a
- Perchenogaeth asedau a mabwysiadu draenio dŵr wyneb yn y dyfodol.
-

Cynllun Manwl Cynnal a Chadw Asedau SuDS - (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753 Pennod 32 ac Atodiad B](#))

RHESWM: I gadarnhau bod y dilyniant rheoli SuDS a chydrannau unigol SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol (yn cynnwys amnewid asedau lle bo angen), i gyflawni ei feini prawf dylunio dros oes y datblygiad. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Gwybodaeth am sut bydd y SuDS yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw, a phwy fydd yn gwneud hynny;
- Manylion am drefniadau mynediad i gerbydau a cherddwyr yn y dyfodol;
- Gwybodaeth am adnoddau dynol, peiriannau a deunyddiau sydd eu hangen a therfynau amser eang ynglŷn â phryd; a
- Yn gydnaws i'r angen i hyrwyddo bioamrywiaeth a gynhelir gan y System Draenio Cynaliadwy.

Cynllun Amwynder a Bioamrywiaeth – Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753 Penodau 5 a 6](#))

RHESWM: I ddangos sut bydd y System Draenio Cynaliadwy yn amddiffyn a gwella amwynder bioamrywiaeth dros oes y datblygiad. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Sut y gwneir y mwyaf o werth amwynder o gynllun SuDS ar gyfer y datblygiad i'r gymuned leol ac ehangach;
- Amwynder yn darparu dŵr glân, eglurdeb SuDS, mynediad diogel, sawl swyddogaeth a gofodau deniadol, gwerth cymdeithasol ac yn addas i newid;
- Bioamrywiaeth yn darparu dŵr glân, cysylltiad ar hyd y dilyniant rheoli a chreu cynefin;
- Manylion amwynder a gwerth bioamrywiaeth, a'r cysylltiadau rhyngddynt; a
- Cynigion o fudd i gynefinoedd blaenoriaeth a chynnal neu wella eraill lle bo'n bosib.
-

Adroddiadau Tir Ansefydlog a Halogedig – Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Penodau 4 a 26)

RHESWM: I adnabod presenoldeb, lleoliad a natur unrhyw dir ansefydlog a/neu halogedig ar y safle neu gerllaw; a sut y cafodd hyn ei ystyried wrth ddylunio cynllun SuDS, a sut bydd yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw dros oes y datblygiad. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys unrhyw strategaethau adfer llygredd.

Strategaeth a Chynllun Trin Ansawdd Dŵr ac Atal Llygredd – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Penodau 4,26 a 27)

RHESWM: I ddangos sut bydd cynnig y SuDS yn osgoi neu'n lleihau creu llygrynnau a sut bydd yn atal llygrynnau rhag cymysgu gyda dŵr ffo cyn ymuno â'r system ddraenio. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Cefnogi amcanion ansawdd presennol a dyfodol y corff dŵr dros oes y datblygiad;
- Tystiolaeth o sgrinio perygl llygredd a bod isafswm gofynion rheoli ansawdd dŵr wedi cael eu hystyried ac yn gallu cael eu cyrraedd (gan ddefnyddio Llawlyfr SuDS (Tabl 4.3), CIRIA 2015);
- Gwybodaeth am y math a chryfder llygrynnau a deunyddiau llygru;
- Sut mae'r difwynwyr posibl wedi cael eu rheoli'n agos at y tarddiad ac ar yr wyneb;
- Manylion ynghylch pa gydrannau SuDS a ddarparwyd mewn cyfres (dilyniant yr SuDS) i lanhau llif cyn y pwynt arllwys;
- Gwybodaeth am sut caiff gwaddodion eu dal a'u gadw ar y safle (ar gyfer digwyddiadau glawiad sydd yn fwy na chyfnod dychwelyd 1:1 blwyddyn);
- Manylion hygyrchedd i lanhau gwaddodion a gweithgareddau cynnal a chadw eraill;
- Manylu sut mae effeithiau dŵr sy'n cael ei golli trwy ddamwain wedi cael ei drin; a
- Tystiolaeth ysgrifenedig o drafodaeth a chytundeb gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.
-

Cynllun Tirlunio – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Pennod 29)

RHESWM: I ddangos sut mae'r nodweddion tirlunio meddal arfaethedig yn cydweithio gydag amcanion cyffredinol SuDS, a sut mae'r dirwedd yn cefnogi ac yn gwella lleihau'r perygl o lifogydd, yn gwella ansawdd y dŵr, ac amwynder a bioamrywiaeth. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Gosodiad cyffredinol manwl, ailffurfio'r tir, plannu, nodweddion caled, meddal a nodweddion dŵr;
- Elfennau tirlunio manwl i wella ansawdd y dŵr;
- Dangos sut mae'r dyluniad yn cyflawni gwanhad, rheoli llif a gormodiant;
- Gwelliannau i ecoleg a bioamrywiaeth;
- Ystyriaeth lawn o weithgareddau cynnal a chadw arferol a chyfnodol effeithiol;
- Dealltwriaeth lawn o gymeriad y safle: llethr, graddiant, modelu'r ddaear, daeareg, mathau o bridd, patrymau draenio naturiol;
- Dangos nodweddion presennol i gael eu cadw, eu gwella, eu tynnu a/neu eu hailosod; a
- Manylion sefydlogrwydd/atgyfnerthu pridd a rheoli erydiad.

Cynllun Rheoli Adeiladu – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Pennod 31 ac Atodiad B, a [CIRIA report C768 - Guidance on the construction of SuDS](#))

RHESWM: I ddarparu dull strwythedig i'r gweithgareddau adeiladu a gwaith dros dro a ddefnyddir i adeiladu'r SuDS, gan sicrhau bod materion pwysig ar safle adeiladu megis draenio, llifogydd, rheoli gwaddodion, atal llygredd, cywasgu ardaloedd ymdreiddiad, storio deunyddiau ac amwynder presennol a chynefinoedd naturiol ac ati yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn effeithiol nes bod y safle adeiladu wedi'i gwblhau. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Manylion am natur y gwaith i'w gwblhau;
- Cynlluniau safle a darluniau llawn y cynllun, pan fo angen i gefnogi'r dull;
- Caniatâd a gofynion adfer;
- Mynedfeydd a manylion;
- Unrhyw faterion ecolegol sy'n benodol i'r safle, neu nodweddion sydd angen eu hamddiffyn a/neu eu hystyried;
- Trefniadau rheoli llygredd ac unrhyw faterion ansawdd dŵr tebygol yn sgil y gwaith adeiladu priffordd a SuDs;
- Strategaeth arfaethedig i reoli gwaddodion, rheoli erydiad a draenio safle yn ystod gwaith adeiladu'r datblygiad; lle bo hyn yn effeithio ar yr SuDS arfaethedig ar gyfer y safle, dylid nodi unrhyw effeithiau posibl ar berfformiad terfynol y system ddraenio ac unrhyw fesurau amddiffyn angenrheidiol neu waith adfer; a
- Mesurau i atal mynediad diofal ar draws y System Draenio Cynaliadwy a gwblhawyd neu a gwblhawyd yn rhannol.

Cynllun Adeiladu Fesul Cam – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Pennod 31 ac Atodiad B, a [CIRIA report C768 - Guidance on the construction of SuDS](#))

RHESWM: I nodi'n glir sut bydd y datblygiad a/neu gamau'r datblygiad yn draenio yn ystod y gwaith adeiladu a meddiannaeth y datblygiad cyn ei fabwysiadu. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Dilyniant dros gyfnodau'r datblygiad a sut bydd y systemau draenio (parhaol neu dros dro) yn cysylltu i ollyngfa (dros dro neu barhaol) yn ystod y gwaith adeiladu a meddiannaeth y datblygiad cyn ei fabwysiadu.

Cynllun Gwybodaeth a Chyfathrebu (lle bo'n briodol) – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Pennod 34)

RHESWM: I ddarparu dull strwythedig i ymgysylltu â'r gymuned leol a gosod y camau ymgysylltu, sut y cânt eu cyflawni, yr adnoddau sydd ar gael i'w cyflawni, a'r amserlen i gyflawni'r canlyniad. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- cyfathrebu gyda ac addysg preswylwyr presennol;
- cyfathrebu gyda ac addysg preswylwyr newydd;
- byrddau gwybodaeth yn benodol am y safle a chydrannau SuDS; ac
- addysg gymunedol lleol a strategaethau addysg (e.e. trwy ysgolion).

Rheoliadau CDM Adeiladu (Dylunio a Rheoli) Ffeil 2015 – (Gweler hefyd [Ciria SuDS Manual C753](#) Pennod 36 ac Atodiad B)

RHESWM: I sicrhau bod dyluniadau SuDS yn cyflawni'r gofynion rheoleiddio a chyfreithiol, a bod asesiadau risg iechyd a diogelwch SuDS yn cyd-fynd â BS EN 31010:2010. Bydd y ffeil yn cynnwys:

- Aseidiadau risg ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r briffordd a system ddraenio.

Cydsyniad a chaniatâd statudol

RHESWM: I ddarparu tystiolaeth bod pob cydsyniad, cytundeb ysgrifenedig a chaniatâd angenrheidiol wedi cael eu sicrhau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Cydsyniad arllwysyadau a thrwyddedau i gwrs dŵr;
- Hawliau i osod pibelli ar dir trydydd parti/hawddfrentiau;
- Manylion hawddfrait;
- Caniatâd gan berchennog glannau'r afon i arllwys;
- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 Adran 104 (mabwysiadu);
- Cytundeb mewn Egwyddor gan Ymgymwrwr Statudol; a
- Caniatâd draenio tir a threfniadau rheoli cwmni draenio.

Dogfennau Teitl

RHESWM: I sicrhau bod pob cysylltiad a pherchenogaeth gyfreithiol ac ati mewn tir ac adeiladu sy'n gysylltiedig â'r SuDS wedi'u nodi, ac y gellir eu mynegi ar gyfer trosglwyddiadau cyfreithiol, derbyniadau a chyfrifoldebau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Teitlau Cynigion neu Dalfyriad o Deitl diweddar mewn lliw ar gyfer y tir dan sylw.

TABL B: Cynlluniau a darluniau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol angenrheidiol ar gyfer y Cais Llawn

Taflen gyflwyno rhif darluniad

Hysbysiad Cais Cynllunio Amlinellol neu Llawn a darluniadau o'r gosodiad cymeradwy (lle y bo'n briodol).

Cynllun o leoliad y safle (Graddfa 1:2500) gyda lluniau diweddar ategol.

Cynllun dalgyrch ac is-ddalgyrch draenio naturiol ac artiffisial (Graddfa 1:2500)

Yn dangos:

- Cyfuchliniau'r tir;
- Topograffi;
- Cyrsiau dŵr; ac
- Ardaloedd perygl o lifogydd presennol, ar yr wyneb a dan y ddaear, sydd yn effeithio ar y safle.

Darluniau cysyniad (Graddfa 1:2500) o gynllun y datblygiad arfaethedig (a/neu ddewisiadau cynllun), tystiolaeth briodol a chymesur yn dangos:

- Cynllun cyfuchliniau cyfeirio llifogydd yn dangos llif gormodiant;
- Amlinelliad o amcangyfrif maint ardaloedd safle a pharthau defnydd tir;
- Cyfrifiadau a dyluniad cysyniadol y System Draenio Cynaliadwy gan gynnwys:
 - ailgyfeirio,
 - triniaeth,
 - cludo llif,
 - rheoli pegwn llif a chyfaint,
 - storfa (hir dymor ac arafu),
 - llwybrau a chydrannau gormodiant
 - dangos y gellir darparu'r storfeydd a llif cludo dangosol ar y safle,
 - amddiffyn a gwella:

ansawdd dŵr,
amwynder,
bioamrywiaeth,
tirwedd.

- Lleoliad ffyrdd, adeiladau a nodweddion draenio cynaliadwy (gan gynnwys mesurau ansawdd dŵr);
- Nodweddion amddiffyn perygl llifogydd posibl a allai fod yn angenrheidiol; a
- Syniadau cychwynnol am fabwysiadu SuDS a chyfrifoldebau cynnal a chadw.

Darluniau lliw o gynllun peirianeg cyffredinol (graddfa 1:500 a 1:1250) yn dangos:

- Ardaloedd o SuDS arfaethedig a gyflwynwyd i gael cymeradwyaeth SAB a'u cynnig i'w mabwysiadu wedi'u llenwi'n wyrdd gydag amlinelliad goch soled;
- Ffiniau safle;
- Adeiladau presennol (ar y safle ac o'i amgylch);
- Lleoliad pob cerbyffordd, troetffyrdd, llwybrau troed, llwybr beiciau, lleiniau, lleiniau gwasanaeth, nodweddion gostegu traffig;
- Mae angen i ddraeniau dŵr budr a dŵr wyneb presennol ac arfaethedig, draeniau priffordd i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod Priffyrdd, ac unrhyw ddraeniau priffordd nad ydynt i gael eu mabwysiadu, gael eu nodi mewn lliwiau gwahanol ac wedi'u labelu'n glir;
- Lle bo'n briodol, dylai pob annedd sydd yn draenio dŵr wyneb preifat i SuDS y briffordd gael eu nodi'n glir ar y cynllun a'u lliwio'n wahanol;
- Cyrsiau dŵr;
- Lefelau llawr gwaelod sydd wedi'u gorffen;
- Tyllau archwilio;
- Dyfais, siambrau a systemau storio/arafu;
- Gollyngfeydd/penwaliau;
- Systemau/nodweddion ategol eraill;
- Coed presennol a lleoliadau arfaethedig;
- Hawddfrentiau i gael eu lliwio'n las;
- Lleoliadau anheddau, garejys a/neu fannau parcio, strwythurau; a
- Goleddau cyfansoddion SuDS, troetffyrdd a cherbyffyrdd.

Darluniau lliw o rannau hydredol (Graddfa 1:500 Llorweddol a 11:100 Fertigol) yn dangos

- Lefelau ffordd presennol ac arfaethedig ar gyfer y llinell ganol, sianeli, graddiant a chromlin fertigol;
- Proffiliau draenio dŵr wyneb a dŵr budr, yn cynnwys lleoliadau siambrau, graddiant, diamedr pibelli, lefelau gorchudd a gwaelod mewnol ac amddiffyniad;
- Dylai draeniau priffordd gael eu hadnabod gyda lliw gwahanol;
- Deunydd y bibell;
- Cryfder y bibell;
- Dosraniad glynu a manylion; a
- Lefelau dŵr daear a chwrs dŵr.

Darluniau trawstoriad a darluniau manylder safonol (Graddfa 1:100, 1:50, 1:20 a 1:10)

Yn dangos eitemau yn y darluniau cynllun peirianeg cyffredinol, ar bellter o ddim mwy na 30 metr.

Darluniau Cynllun Tirlunio (Graddfa 1:500)

Yn dangos:

- Manylion planhigion, rhywogaethau coed/maint/lleoliad;
- Unrhyw goed presennol i gael eu cadw;
- Manylion pyllau coed;
- Caeau chwarae glaswelltog ac offer;
- Ffensys a waliau; a
- chadarnhau perchnogaeth tir.

Darluniau Arbenigol (Graddfa 1:1250)

Yn dangos:

- Pontydd, cwlfertau, unrhyw waith peipiau dros 600mm diamedr, penwaliau, waliau cynnal a nodweddion eraill a adeiladwyd; a
- Gwasanaethau Statudol Presennol a chynlluniau cyfleustodau yn dangos o amgylch y datblygiad arfaethedig.

Dylid nodi:

- Dylai cynlluniau gael eu plygu i faint A4.